Talentau Gobaith

UBC BUW

# Adnodd Gweithgaredd Plant

## AM BETH MAE HYN I GYD ?



- **DEWCH O HYD I LUNIAU** RHAI O'R HERIAU Y BYDDAI'R PLANT O BOSIB YN EU HWYNEBU O DDYDD I DDYDD (YSGOL, GORCHWYLION, AYB) A'R BOBL YN ZIMBABWE YN EU HWYNEBU (NEWID HINSAWDD YN EFFEITHIO AR BATRYMAU TYWYDD, EFFEITHIAU COVID-19, ECONOMI WAN).
- CHWARAEWCH **"GÊM COF"** LLE BYDD RHAID IDDYNT GOFIO'R DARLUNIAU.
- EGLURWCH MAI RHAIN YW RHAI O'R PETHAU Y BYDDAI POBL O BRYDAIN A/NEU O ZIMBABWE YN EU GWELD YN HERIAU O DDYDD I DDYDD.
- YNA DYWEDWCH WRTH Y PLANT I SORTIO RHAIN ALLAN I BETH FYDDAI'R **PLANT** A **PHOBL ZIMBABWE** YN EU GWELD YN HERIOL.

## PROSIECT BRACT ZIMBABWE



- CHWARAEWCH Y GÊM '**DYFALWCH PWY'** GAN DDEFNYDDIO SYMUDIADAU'N UNIG I ACTIO ALLAN Y PERSON. TRAFODWCH SUT Y GELLID FOD WEDI GWNEUD HYN YN HAWS (GAN DDEFNYDDIO LLAIS A GOFYN CWESTIYNAU AM Y PERSON).
- CYFLWYNWCH **PROSIECT BRACT** (HELPU CYMUNEDAU I ADDASU I NEWID HINSAWDD A SIOCIAU ECONOMAIDD). TRAFODWCH BETH MAE HYN YN EI OLYGU.
- CHWARAEWCH Y GÊM "DYFALWCH PWY" ETO GAN DDEFNYDDIO RHEOLAU HAWS. EGLURWCH BOD PROSIECT BRACT YN HELPU POBL I DDYSGU SUT MAE TYFU MWY O FWYD, GAN WNEUD EU BYWYDAU'N HAWS. MAE HYN YR UN FATH Â BOD Y RHEOLAU NEWYDD WEDI GWNEUD Y GÊM YN HAWS.

## STORI - MATHEW 25: 14-30



- ACTIWCH ALLAN **STORI'R TALENTAU** GAN DDEFNYDDIO ARIAN I GYNRYCHIOLI'R ARIAN YN TYFU.
- GOFYNNWCH I'R PLANT BETH MAENT HWY'N EI FEDDWL YW YSTYR Y STORI A BETH FYDDENT HWY WEDI EI WNEUD YN YR AMGYLCHIAD HWNNW.
- YNA, CYMHWYSWCH Y STORI I WAITH CYMORTH CRISTNOGOL YN ZIMBABWE A THRAFODWCH SUT Y GALLAI GAEL EI CHYMHWYSO'N YMARFEROL.

## TYSTIOLAETH POBL




- EDRYCHWCH TRWY **STORÏAU'R MENYWOD** YN ZIMBABWE (GWELER ADNODDAU ISOD A THAFLEN WYBODAETH YR APÊL).
- YNA, GOFYNNWCH I'R PLANT PA MOR ANODD Y MAENT YN MEDDWL YW HI I DDYSGU SGIL NEWYDD.
- DEWISWCH **SGIL NEWYDD** (JYGLIO, DATRYS CIWB RUBIX) A DECHREWCH DDYSGU GYDA'CH GILYDD.
- TRAFODWCH SUT Y BYDDAI'N TEIMLO I'W WNEUD OS FYDDAI EU HINCWM YN DIBYNNU ARNO. MEDDYLIWCH YNGHYLCH SUT Y GALLEN NHW HELPU'R POBL AR Y PROSIECT BRACT (GWELER SYNIADAU CODI ARIAN).

## CREFFT/ YMATEB



- MAE LLAWER O BOBL YN ZIMBABWE YN DIBYNNU AR FFERMIO AR GYFER EU BYWOLIAETH AND ROEDD NEWID HINSAWDD YN EI GWNEUD HI'N FWY ANODD I DYFU BWYD.
- PLENNWCH HADAU, RHOI DDŴR IDDYNT A GWYLIWCH HWY'N TYFU. WRTH I CHI OFALU AMDANYNT, COFIWCH WEDDÏO DROS Y BOBL YN ZIMBABWE.
- BETH AM WERTHU RHAI O'R PLANHIGION I BOBL ER MWYN CODI ARIAN AR GYFER GWAITH CYMORTH CRISNOGOL YN ZIMBABWE.

Edrychwch ar y caneuon rhain o Glwb Allstar Kids!


## SYNIADAU CODI ARIAN



- MYNNWCH GAEL EICH NODDI I DDYSGU SGIL NEWYDD FEL JYGLIO, NEU CHWARAEON NEWYDD NEU DDARLLEN AM DDENG MUNUD BOB DYDD AM FIS ER MWYN COFIO POBL YN ZIMBABWE'N DYSGU SGILIAU NEWYDD.

- SAFIWCH BOB 20C Y BYDDWCH YN EI DDERBYN A'I ROI I CYMORTH CRISTNOGOL.
- MYNNWCH GAEL EICH NODDI I GERDDED I'R YSGOL / NEU WEITHGAREDDAU AR ÔL YSGOL AM WYTHNOS ER MWYN LLEIHAU ÔL TROED CARBON GAN GOFIO BOD NEWID HINSAWDD YN EFFEITHIO POBL ZIMBABWE.

## GWEDDI



- TYNNWCH LUN AC YSGRIFENNWCH WEDDÏAU AR AWYRENNAU PAPUR.
- GWEDDÏWCH DROS BROSIECT BRACT ZIMBABWE

.

- GWEDDÏWCH DROS Y BOBL YR YDYCH WEDI CLYWED AMDANYNT YN Y SESIWN.
- GWEDDÏWCH DROS YR YMDRECHION CODI ARIAN AR GYFER GWAITH CYMORTH CRISTNOGOL YN ZIMBABWE
- GWEDDÏWCH Y GWEDDÏAU'N UCHEL AC WEDYN HEDFANWCH YR AWYRENNAU I GOFIO AM BOBL Y MAE CYMORTH CRISTNOGOL YN EU CEFNOGI YN ZIMBABWE.

## ADNODDAU

Stori Netsai Kateera
- Mam i dri, pentref Nihire, Mutoko.
- Roedd Netsai a'i theulu'n ei chael hi'n anodd iawn gwneud bywoliaeth o'u fferm.
- Hyfforddodd fel weldiwr mewn cwrs yn cael ei redeg o dan y prosiect BRACT.
- Cwmni Star Welding - gwneud offer ffermio.
- 'Mae'r teulu cyfan yn hapus iawn gyda'r incwm ychwanegol ac mae gan fy mhlant ddiddordeb hefyd mewn cymryd dros y busnes wedi iddynt orffen ysgol'.

Stori Taindonzwa Kapfudzaruwa
- Roedd hi'n ofalydd am ei gŵr anabl, yn famgu i saith, ac yn ffermwraig yn Mudzi.
- 'Waeth pa mor galed y byddem yn gweithio, ni allem wella cynhyrchiant a rhai blynyddoedd golygodd y glaw gwael na allem gynaeafu dim'.
- Dysgodd y Prosiect BRACT dechnegau ffermio newydd iddi a oedd yn fwy addas ar gyfer amodau tywodlyd y tir.
- Gwellodd ei chynnyrch yn y flwyddyn gyntaf o newid ei dulliau.

Stori Blessings Muzori
- Gwraig, Mam a Ffermwraig 51 oed o bentref Kazingizi, Mutoko.
- Gadawodd gŵr Blessings y pentref a mynd i'r ddinas i chwilio am waith. Rhoddod hyn bwysau ar eu priodas.
- Ymunodd hi gydag ISAL lleol (Grŵp cynilo a benthyca'r pentref).
- Roedd ei ISAL wedi buddsoddi mewn busnes gwasgu olew, gan greu incwm ychwanegol.
- Dychwelodd y gŵr adref oherwydd nad oedd angen incwm y ddinas mwyach.

Dolennau Caneuon Allstars Kids Club:-
Hope
https://www.youtube.com/watch?v=r_t5xitQjIc
The Blessing
https://www.youtube.com/watch?v=uiWZXLsdE9w




**Ewch at wefan UBC, 'Apeliadau' > 'Talentau Gobaith' am fwy o wybodaeth ac adnoddau**

(gan gynnwys copi digidol o'r ddogfen hon)